

## **Urddas a Gofal Hanfodol Arolygiad (Dirybudd)**

Bwrdd Iechyd Addysgu

Powys: Ysbyty Coffa

Victoria, Ward Maldwyn

20 a 21 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.  
Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfarthrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tydfil  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	3
4.	Crynodeb .....	4
5.	Canfyddiadau .....	6
	Ansawdd Profiad y Claf .....	6
	Cyflenwi Hanfodion Gofal .....	9
	Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	18
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol .....	22
6.	Y Camau Nesaf.....	27
	Atodiad A.....	28

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o urddas a gofal hanfodol yn Ward Maldwyn, Ysbyty Coffa Victoria, Y Trallwng, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 20 a 21 Ionawr 2015.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn adolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal o fewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn arolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau, a chyfweiliadau gyda staff
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr y bwrdd iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol ar amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn hefyd dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gofal ac urddas hanfodol.

### 3. Cyd-destun

Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Powys yn darparu gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd i boblogaeth Powys. Powys yw'r sir deneuaf ei phoblogaeth yng Nghymru, ond mae'n cwmpasu'r ardal fwyaf, gan estyn mor bell i'r gogledd â Llanymynech, ger Croesoswallt, ac i lawr i Ystradgynlais, sy'n agos i Abertawe.

Ysbyty cymunedol yw Ysbyty Coffa Victoria sydd wedi'i leoli yn y Trallwng, Powys. Mae gan yr ysbyty un ward i gleifion mewnol, Maldwyn, sydd â 24 o welyau meddygol ac adsefydlu i gleifion Powys. Mae'r ward yn derbyn cleifion o'r tri ysbyty cyffredinol dosbarth agosaf yn bennaf, ond ar adegau derbynnir cleifion yn uniongyrchol o'u meddyg teulu.

Yn ogystal â'r ward cleifion mewnol, ceir uned mân anafiadau 24 awr brysur, canolfan eni dan arweiniad bydwragedd, a chlinigau i gleifion allanol yn yr ysbyty hefyd. Mae gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau gwaith yn defnyddio'r adran i gleifion allanol er mwyn gweld cleifion hefyd.

Ar yr un safle, ceir is-uned dialysis arenol hefyd, sy'n cael ei rhedeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac sydd ar agor am dri diwrnod bob wythnos. Nid yw'r uned hon a gweddill yr ysbyty yn rhannu strwythurau llywodraethu neu uwch reolaeth; fodd bynnag, mae'r uwch staff yn y safle â chysylltiad anffurfiol ac yn cadw'n gyfredol o ran datblygiadau a newidiadau yn eu meysydd unigol.

Roedd ein harolygiad yn canolbwyntio ar y gwasanaethau a ddarperir ar Ward Maldwyn, ac oherwydd cynllun yr ysbyty a threfn y staff, roedd yn ofynnol ymweld â'r uned mân anafiadau, ac rydym wedi nodi rhai sylwadau ac argymhellion oherwydd yr effaith sydd gan yr uned hon ar Ward Maldwyn.

## 4. Crynodeb

### Profiad y Claf

Yn ystod yr ymweliad arolygu hwn, treuliwyd amser yn arsylwi ar staff a chleifion yn rhyngweithio, yn siarad yn anffurfiol â chleifion, yn defnyddio'n holiadur i gasglu adborth mwy ffurfiol gan gleifion, ac yn edrych ar gofnodion cleifion i weld a oeddent yn unigoledig. Ystyriwyd amgylchedd y ward a'r cyfleusterau sydd ar gael i gleifion hefyd.

Ar y cyfan, cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cleifion a'r ymwelwyr y siaradwyd â nhw. Gwelwyd hefyd bod y tîm staff yn frwdfrydig, a'u bod yn ymddangos yn fodlon yn eu gwaith, a oedd yn cyfrannu at yr awyrgylch cadarnhaol ar y ward.

### Cyflenwi Hanfodion Gofal

Gwelwyd tîm o staff nyrsio gofalgarn a brwdfrydig wrth eu gwaith, a gwelwyd aelodau eraill o'r tîm, megis y staff domestig a'r ffisiotherapyddion, yn cyfrannu at y gofal a ddarparwyd. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y staff yn bodloni'r safonau o ran hanfodion gofal. Roeddem o'r farn bod safonau o ran cadw cofnodion yn wan ar adegau, ac rydym wedi gwneud argymhellion i wella hyn, ond rydym yn cydnabod bod staff uwch Powys wedi canfod hyn drostynt eu hunain, ac wedi llunio dogfennaeth newydd mewn ymgais i wella safonau. Roeddem o'r farn mai'r systemau a'r strwythurau sy'n ymwneud â phrydau bwyd oedd y prif faes oedd angen ei adolygu arno, er mwyn gwella'r gofal a roddir i gleifion yn ystod yr amseroedd hyn.

### Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelwyd tystiolaeth glir o arweinyddiaeth gan staff uwch, ac roeddent yn amlwg a phrysur ymysg tîm y ward. Roeddem o'r farn bod y lefelau staffio yn ystod y dydd yn briodol er mwyn bodloni'r canllawiau lleol a chenedlaethol, a dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn canfod bod modd ymdopi â'r baich gwaith. Roeddem yn bryderus iawn am y lefelau isel a chyfnewidiol posibl o ran staffio yn ystod y nos, a oedd yn dibynnu ar weithgaredd yr uned mân anafiadau, ac rydym yn argymhell yn gryf y dylid adolygu'r trefniadau presennol ar frys.

### Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod prif nyrsys y ward wedi mewnbllannu systemau ar gyfer monitro darpariaeth gwasanaeth diogel i'w harferion bob dydd. Roeddem o'r farn bod y staff yn weithgar o ran lleihau risgiau allweddol, megis

cwmpau, ac roedd prif nyrs y ward yn gweithio tuag at weithredu systemau trosfwaol er mwyn lleihau'r risgiau hyn hyd yn oed yn fwy. Gwnaed rhai argymhellion, yn enwedig o ran yr angen i wella safonau cadw cofnodion mewn dogfennau cleifion yn gyffredinol.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Yn ystod yr ymweliad arolygu hwn, treuliyd amser yn arsylwi ar staff a chleifion yn rhyngweithio, yn siarad yn anffurfiol â chleifion, yn defnyddio'n holiadur i gasglu adborth mwy ffurfiol gan gleifion, ac yn edrych ar gofnodion cleifion i weld a oeddent yn unigoleidig. Ystyriwyd amgylchedd y ward a'r cyfleusterau sydd ar gael i gleifion hefyd.**

**Ar y cyfan, cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cleifion a'r ymwelwyr y siaradwyd â nhw. Gwelwyd hefyd bod y tîm staff yn frwdfrydig, a'u bod yn ymddangos yn fodlon yn eu gwaith, a oedd yn cyfrannu at yr awyrgylch cadarnhaol ar y ward.**

Adborth yr holiaduron

Yn ystod yr arolygiad, dosbarthwyd chwech o holiaduron AGIC i gleifion, perthnasau ac ymwelwyr er mwyn ceisio safbwyntiau pobl am y gwasanaethau a ddarperir ar Ward Maldwyn. Cawsom ganiatâd gan y chwech o ymatebwyr i'r holiadur i gynnwys unrhyw sylwadau ychwanegol a wnaethant yn ein hadroddiad. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradwyd hefyd â nifer o gleifion a pherthnasau eraill a oedd yn fodlon a/neu'n ddigon iach i rannu eu safbwyntiau â ni.

Gofynnwyd i ymatebwyr yr holiadur raddio eu gofal a'u triniaeth gyffredinol gan ddefnyddio graddfa rhwng 1 (gwael) a 10 (ardderchog). Rhoddodd dau ymatebydd y radd uchaf o 10/10, rhoddodd un ymatebydd 9/10, a rhoddodd tri ohonynt 8/10. Ni roddodd unrhyw un sgôr bodlonrwydd is na 8/10.

Gofynnwyd a oedd y ward yn lân ac yn daclus, a nododd pob un o'r chwe ymatebydd

eu bod naill ai'n cytuno'n gryf (pedwar) neu'n cytuno (dau). Cafwyd mwy o sylwadau am lendid, ac fe'u gwelir isod:

*“da iawn, bob amser yn lân”*

Gofynnwyd am agwedd y staff wrth ddarparu gofal a thriniaeth, a rhoddodd pedwar o'r chwe ymatebydd y radd gadarnhaol uchaf, a nodwyd un sylw ychwanegol am hyn, sef i roi canmoliaeth i'r gweithwyr domestig a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd. Cafwyd rhai atebion niwtral hefyd i'r adran hon, mewn ymateb i ba un a oedd y cleifion yn teimlo y gwrandewid arnynt ai peidio, a pha un a oedd y staff wedi treulio amser yn eu helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol.



Er mwyn rhoi mwy o gyd-destun i'r ymatebion hyn, nodwyd y sylwadau canlynol:

*"[Mae'r staff] yn eich helpu os gallant, ond gellid cael mwy o staff"*

*"Nid oedd y meddyg wedi darllen fy nodiadau o flaen llaw"*

### **Argymhelliad**

***Sicrhau bod y staff yn treulio amser yn helpu'r cleifion i ddeall eu cyflyrau meddygol. Sicrhau bod digon o baratoadau'n cael eu gwneud cyn rowndiau ward.***

Gofynnwyd i gleifion beth oedd eu barn am safon y gofal a'r modd y cafodd ei ddarparu iddynt, a nododd pob un o'r chwe ymatebydd eu bod naill ai'n cytuno'n gryf, neu'n cytuno, eu bod yn fodlon ar y gofal a'r modd y cafodd ei ddarparu. Derbyniwyd sylwadau ychwanegol a oedd yn gadarnhaol iawn i'r cwestiynau hyn:

*"Mae'r staff yn gefnogol iawn, maen nhw mor ofalgar"*

*"Os nad ydych chi'n teimlo'n dda, maent yn gofalu amdanoch chi"*

### **Adborth anffurfiol**

Siaradwyd yn gyffredinol hefyd â nifer o gleifion, a gwelwyd bod cleifion ar y cyfan yn gadarnhaol yn glŷn â'r gofal roeddent yn ei dderbyn ar Ward Maldwyn, a hefyd yn glŷn â dull gofalgar y staff oedd yn darparu eu gofal.

### **Yr amgylchedd**

Ar ddiwrnod cyntaf ein hymweliad arolygu, roedd ystafell ddydd y ward yn ymddangos fel pe bai'n ganolbwynt i weithgareddau; roedd llawer o gleifion yn eistedd yno, a bwytaodd llawer eu cinio wrth y byrddau yno, gan ddychwelyd i'w gwelyau yng nghanol y prynhawn. Yn ystod yr ail ddiwrnod, nodwyd bod yr ystafell ddydd bron yn hollol wag am y rhan fwyaf o'r dydd. Pan siaradwyd â chleifion yn glŷn â hyn, dywedwyd wrthym nad oeddent fel arfer yn defnyddio'r ystafell ddydd, ond bod yn rhaid iddynt ei defnyddio yn ystod ein diwrnod arolygu cyntaf oherwydd bod cilfannau'r ward yn cael eu glanhau'n drylwyr. Dywedodd rhai o'r cleifion wrthym hefyd nad oeddent yn hoffi treulio llawer o amser yn yr ystafell ddydd gan eu bod o'r farn bod y seddi'n galed, yn anghyfforddus, ac yn anaddas am gyfnodau hir.

## ***Argymhelliad***

***Adolygu'r seddi yn yr ystafell ddydd er mwyn sicrhau eu bod yn addas a chyfforddus i gleifion eu defnyddio a threulio amser ynddynt.***

## ***Cyflenwi Hanfodion Gofal***

**Gwelwyd tîm o staff nyrsio gofalgar a brwdfrydig wrth eu gwaith, a gwelwyd aelodau eraill o'r tîm, megis y staff domestig a'r ffisiotherapyddion, yn cyfrannu at y gofal a ddarparwyd. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y staff yn bodloni'r safonau o ran hanfodion gofal. Roeddem o'r farn bod y safonau o ran cadw cofnodion yn wan ar adegau, ac rydym wedi gwneud argymhellion i wella hyn, ond rydym yn cydnabod bod staff uwch Powys wedi canfod hyn drostynt eu hunain, ac wedi llunio dogfennaeth newydd mewn ymgais i wella safonau. Roeddem o'r farn mai'r systemau a'r strwythurau yn ymwneud â phrydau bwyd oedd y prif faes oedd angen ei adolygu arno, er mwyn gwella'r gofal a roddir i gleifion yn ystod yr amseroedd hyn.**

### **Cyfathrebu a gwybodaeth**

Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hanghenion.

### **Casgliad**

Yn ystod y rowndiau ward, gwelwyd bod y staff nyrsio a'r staff meddygol yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn tynnu'r llenni o'u cwmpas mewn ymgais i sicrhau bod y sgyrsiau mor breifat â phosibl. Roedd y lleisiau mor ddisylw ac isel â phosibl, ond yn parhau i fod yn ddigon uchel fel bod cleifion yn gallu clywed beth oedd yn cael ei ddweud.

O edrych ar ddogfennaeth, gwelwyd bod y staff nyrsio yn atgyfeirio cleifion i gael cyngor arbenigwr pan oedd angen gwneud hynny. Gwelwyd atgyfeiriadau at arbenigwr nyrsio seiciatrig, at arbenigwr nyrsio hyfywedd meinwe, ac at ddeietegydd.

Nodwyd bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo symbol wedi'i frodio ar eu gwisgoedd er mwyn dangos i gleifion eu bod yn gallu siarad y ddwy iaith. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod staff yn sefydlu beth yw iaith ddewisol cleifion, a siaradwyd ag un claf yn Gymraeg (ei hiaith ddewisol) er nad oedd unrhyw beth yn ei nodiadau nac o amgylch y lle gwely i nodi ei hiaith ddewisol.

### ***Argymhelliad***

***Dylai staff nyrsio sefydlu beth yw iaith ddewisol cleifion a hybu hyn pan fo hynny'n bosibl.***

Roedd y ddarpariaeth arwyddion ar gyfer y manau clinigol, y manau cleifion, a'r manau staff ar y ward yn wael, ac roeddem o'r farn bod angen gwella hyn er mwyn sicrhau bod y ward yn fwy hygyrch, yn enwedig ar gyfer cleifion a allai fod braidd yn ddryslyd neu sy'n dioddef o ddementia. Esboniodd yr uwch staff i ni eu bod wedi nodi hyn o'r blaen, a'u bod wedi archebu arwyddion newydd. Fodd bynnag, oherwydd bod cynlluniau i wneud peth gwaith ad-drefnu ac adeiladu ar y ward, roeddent yn bwriadu gosod yr arwyddion ar yr un pryd.

### **Parchu pobl**

*Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis gwybodus bob amser, a rhaid i'r gofal a ddarperir ystyried anghenion, galluedd a dymuniadau'r unigolyn.*

### ***Casgliad***

Trwy arsylwi ar yr ymadweithio yn gyffredinol rhwng y staff a'r cleifion ar y ward, nodwyd bod y staff yn ymdrin â chleifion mewn modd cwrtais a gofalgar. Gwelwyd bod llenni'n cael eu tynnu bob amser yn ystod darparu gofal, er mwyn gallu cynnal preifatrwydd y cleifion. Mae'r ward wedi'i rhannu'n wahanol gilfannau, ac er mwyn sicrhau bod cleifion yn fwy gweladwy i'r staff, mae ffenestri wedi'u gosod yn y wardiau er mwyn galluogi'r staff nyrsio i weld i mewn o'r coridor. Mae bleindiau ar y ffenestri, a gellir eu cau yn ystod gofal personol er mwyn amddiffyn preifatrwydd ac urddas. Fodd bynnag, ar un achlysur, nodwyd bod staff ffisiotherapi'n ymdrin â chlaf heb dynnu'r bleindiau. Gofynnwyd i hyn gael ei unioni ar unwaith, ac fe wnaed. Fodd bynnag, dylid atgoffa'r holl staff bod angen cau bleindiau a llenni yn ystod unrhyw ofal neu gymorth claf a allai fod yn bersonol.

### ***Argymhelliad***

***Dylid atgoffa'r holl staff bod angen cau llenni a bleindiau yn ystod unrhyw ofal neu gymorth claf a allai fod yn bersonol.***

### **Hybu annibyniaeth**

*Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r unigolyn i fanteisio i'r eithaf ar eu gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.*

### **Casgliad**

Ar adegau, gwelwyd y staff yn cynnwys aelodau o'r teulu yn y broses asesu ar gyfer cleifion oedd yn ddryslyd. Roedd y teuluoedd wedi helpu trwy gwblhau dogfen bersonol o'r enw 'Dyma Fi', a oedd yn darparu gwybodaeth bersonol

iawn ar gyfer y staff er mwyn eu helpu i ddeall y claf yn well. Gwelwyd hefyd bod y ward wedi dechrau gweithredu'r Cynllun Pili-pala, a gwelwyd bod symbolau pili-pala wrth ymyl enwau cleifion ar yr hysbysfwrdd yn y swyddfa, a oedd yn annog staff i fod yn ymwybodol o'r cymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar y cleifion hyn er mwyn eu cynorthwyo i fod yn annibynnol.

Ar gyfer cleifion sy'n ddryslyd, roedd y systemau ychwanegol a nodir yn flaenorol wedi'u sefydlu er mwyn eu helpu gydag asesiadau personol. Fodd bynnag, ar gyfer cleifion eraill, gwelwyd nad oedd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal yn dilyn hynny mor bersonol ag y gellid bod.

Nodwyd bod y staff yn gosod clychau galw'r cleifion o fewn eu cyrraedd ar gyfer pe byddai angen galw am gymorth. Gwelwyd hefyd nifer o gleifion yn defnyddio gwahanol gymhorthion symud er mwyn symud o amgylch y ward yn annibynnol.

### **Perthnasau**

*Rhaid annog pobl i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u cyfeillion a datblygu perthynas ag eraill yn unol â'u dymuniadau.*

### **Casgliad**

Roedd amseroedd ymweld y ward yn hir, ond roeddent wedi'u cynllunio gyda'r bwriad o beidio cynnal ymweliadau o gwmpas amseroedd bwyd. Dyma system a elwir yn 'brydau bwyd wedi'u neilltuo', ac mae wedi'i chynllunio i leihau ymyriadau i gleifion yn ystod yr amseroedd pwysig hyn o'r dydd. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw y gellid caniatáu ymweliadau i gleifion yn ystod prydau bwyd pe byddai hyn er lles gorau claf, ond nid oedd yr hysbysiadau o ran amseroedd ymweld yn nodi y gallai perthnasau/gofalwyr ofyn am ganiatâd i ymweld y tu allan i'r amseroedd penodedig.

Ar ddiwrnod cyntaf ein hymweliad, nodwyd bod nifer o gleifion yn eistedd gyda'i gilydd yn yr ystafell ddydd ac yn bwyta eu cinio wrth y byrddau bwyd yno. Fodd bynnag, ar ein hail ddiwrnod, roedd yr ystafell ddydd bron yn wag. Dywedodd cleifion wrthym nad oeddent yn defnyddio'r ystafell ddydd fel arfer, ac mai dim ond oherwydd bod eu cilfannau'n cael eu glanhau'n drylwyr roeddent yn ei defnyddio'r diwrnod cynt. Felly, nid oedd y cyfleoedd i ymadweithio gyda'i gilydd yn cael ei hybu cymaint ag y gellid.

### **Argymhelliad**

***Hybu defnydd aml o'r ystafell ddydd pan fo hynny'n bosibl, er mwyn annog cleifion i ymadweithio.***

## **Gorffwys, cysgu a gweithgareddau**

*Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl fel y gallant orffwys a chysgu.*

### **Casgliad**

Yn ystod ein hymweliad arolygu, roedd y tywydd y tu allan yn arbennig o oer. Fodd bynnag, roedd y ward yn gyfforddus o gynnes, ac roedd y cleifion hefyd yn ymddangos yn gyfforddus gyda'r tymheredd. Roedd y ward wedi'i rhannu'n ystafelloedd sengl a chilfannau gyda dau neu bedwar gwely, ac, ar y cyfan, roeddem o'r farn bod hyn yn cyfrannu at awyrgylch tawel yn ystod yr amseroedd roeddem ni'n bresennol ar y ward. Nodwyd bod y ward yn mynd yn dawelach, yn enwedig ar ôl cinio, ac roedd yn ymddangos bod y cleifion yn cael y cyfle i ymlacio cyn dechrau'r amser ymweld.

Nid oeddem yn bresennol ar y ward yn ystod y nos. Fodd bynnag, siaradwyd â'r staff am y drefn yn ystod y nos, ac roedd gennym rai pryderon ynglŷn â lleoliad agos yr uned mân anafiadau yn ystod y nos, a'r posibilrwydd i hyn achosi aflonyddwch sŵn i gleifion yn y gilfan a'r ystafelloedd ochr agosaf ati. Fe'n hysbyswyd gan y staff hefyd nad oeddent o'r farn bod y trefniant presennol yn ateb addas, yn enwedig os yw ymddygiad y cleifion yn cael ei effeithio tra'u bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, sy'n bosibl yn ystod y nos ar benwythnosau.

### ***Argymhelliad***

***Adolygu lleoliad yr uned mân anafiadau yn ystod y nos, gan ystyried yr aflonyddwch posibl i gleifion y ward a allai gael ei achosi gan y lleoliad presennol.***

## **Sicrhau cysur a lleddfau poen**

*Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus a rhydd rhag poen ac y mae eu hamgylchiadau'n eu caniatáu.*

### **Casgliad**

Archwiliwyd hyn trwy edrych yn fanwl ar gynlluniau gofal a dogfennau eraill ar gyfer dau glaf a oedd mewn poen. Gwelwyd bod y staff yn cofnodi'n rheolaidd a oedd y cleifion mewn poen ai peidio, ac roedd meddyginiaeth briodol yn cael ei rhoi er mwyn mynd i'r afael â'r boen - roedd y dogfennau'n dangos bod y feddyginiaeth yn gweithio'n effeithiol hefyd. Nodwyd nad oedd y ward yn defnyddio dull sgorio poen i'w chynorthwyo i ganfod lefelau o boen. Fodd

bynag, gwelwyd tystiolaeth y bydd y ddogfen newydd a gyflwynir ym mis Chwefror 2015 yn cynnwys sgoriau poen, a dylai roi sylw i hyn.

Gwelwyd staff yn helpu cleifion i newid ystum eu cyrff mewn modd addas, ond roedd yn ymddangos bod nifer o gleifion yn cael eu nyrsio yn y gwely. Mae'n bosibl mai dyma oedd y lle gorau a'r mwyaf cyfforddus iddynt, ond nid oedd dogfennau'r cleifion yn nodi digon o fanylion i ni allu gweld y rhesymeg dros beidio annog cleifion i eistedd mewn cadair.

### ***Argymhelliad***

***Sicrhau bod dogfennau cleifion yn cynnwys digon o fanylion i esbonio'r rheswm dros benderfyniadau yn ymwneud â newid ystum cyrff cleifion a nyrsio yn y gwely.***

### **Hylendid personol, ymddangosiad a gofal draed**

*Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl wrth ofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a'u traed.*

### **Casgliad**

Cyrhaeddodd yn hwyr yn y bore ar gyfer ein diwrnod arolygu cyntaf, ac erbyn hynny, roedd yn ymddangos bod pob claf wedi'i ymolchi a'i wisgo mewn dillad glân. Ar yr ail ddiwrnod, fe gyrhaeddodd yn gynharach, a gwelwyd y staff yn cynorthwyo'r cleifion i ymolchi a gwisgo.

Nid oes unrhyw gyfleusterau ar gael ar y ward i olchi dillad cleifion, ac mae'n rhaid eu hanfon adref i'w golchi. Nid archwiliwyd beth fyddai'n digwydd pe na fyddai gan gleifion deulu neu ffrindiau i wneud hyn ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn ein hysbysu am unrhyw broblemau gyda'r system sydd ganddynt ar hyn o bryd.

Roedd y stoc o ddillad gwely yn isel ar fore ein diwrnod arolygu cyntaf, ond yn amlwg cafodd mwy o stoc eu hanfon yn hwyrach, oherwydd roedd y cwpwrdd dillad gwely wedi'i ail-lenwi erbyn ail ddiwrnod yr ymweliad. Eto, ni hysbysodd y staff am unrhyw faterion ynglŷn â hyn, ac roedd yn ymddangos bod gan y cleifion ddigon o flancedi i'w cadw'n gyfforddus.

Gwelwyd ciropodydd yn ymweld â'r ward er mwyn rhoi sylw i ofal traed y cleifion, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn cyfeirio at wasanaethau trin traed yn rheolaidd ar gyfer cleifion sydd eu hangen.

Roedd triniwr gwallt yn ymweld â'r ward tra oeddem yn bresennol. Fodd bynnag, roedd hyn yn drefniant arbennig ar gyfer un claf, ac nid oedd unrhyw

glaf arall yn cael trin ei wallt. Roedd rhai o'r cleifion benywaidd yn siomedig oherwydd hyn, gan eu bod wedi gobeithio cael gweld y triniwr gwallt. Dywedodd staff y ward wrthym fod triniwr gwallt yn ymweld â'r ward yn aml o'r blaen i weld unrhyw glaf a oedd yn dymuno cael y gwasanaeth hwn, ond bod y trefniant hwn bellach wedi dod i ben.

### ***Argymhelliad***

***Ystyried ailgyflwyno ymweliadau trin gwallt rheolaidd â'r ward.***

### **Bwyta ac yfed**

*Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n bodloni eu gofynion maethol a phersonol, a dylid darparu unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.*

### **Casgliad**

Gwnaethom weld dau amser bwyd yn ystod ein harolygiad, ac roedd yn ymddangos bod y staff i gyd ar gael i roi cymorth o ran gweini prydau bwyd a chynnig cymorth i'r cleifion hynny a allai fod ag angen hynny. Aethom i'r gegin yn yr ysbyty (nid aethom i'r man paratoi bwyd ei hun, dim ond edrych o bellter), a gwelwyd y cogydd yn paratoi amrywiaeth eang o ffrwythau a llysiau ffres er mwyn creu prydau bwyd maethlon a chytbwys. Pan gyrhaeddodd y bwyd i'r ward, roedd yn boeth ac yn edrych yn ffres a blasus. Rhoddwyd meintiau dogn gwahanol i'r cleifion yn ddibynnol ar eu hanghenion a'u dymuniadau.

Yn union cyn yr amser bwyd, ni welwyd unrhyw dystiolaeth benodol bod trefn ar gyfer sicrhau bod y cleifion a'u byrddau gwely yn cael eu paratoi. O ganlyniad i hyn, pan oedd y prydau bwyd yn cael eu gweini, roedd y cleifion yn cael eu hailosod ar frys, ac roedd y byrddau'n cael eu clirio ar frys er mwyn gwneud lle i hambyrddau.

### ***Argymhelliad***

***Sicrhau bod cleifion wedi'u gosod a byrddau wedi'u glanhau a'u clirio mewn pryd i'r gwasanaeth bwyd.***

Gwelwyd bod y cleifion yn cael clytiau diheintio wedi'u lapio'n unigol ar eu hambyrddau bwyd. Fodd bynnag, ni roddwyd unrhyw gymorth i agor y pacedi, a gwelwyd nifer o'r rhain yn cael eu dychwelyd heb eu hagog na'u defnyddio pan gasglwyd yr hambyrddau oddi wrth y cleifion.



### ***Argymhelliad***

***Sicrhau bod cleifion yn cael cymorth wrth ddefnyddio clytiau diheintio neu wrth olchi eu dwylo cyn amser bwyd.***

Gwelwyd bod rhai o'r staff domestig yn cymryd rhan weithredol wrth ddsbarthu hambyrddau bwyd i gleifion, ac oherwydd y diffyg paratoi o flaen llaw, roeddent hefyd yn cynorthwyo gyda pharatoadau sylfaenol y cleifion (megis symud gobenyddion) a chlirio'r byrddau i wneud lle. Nodwyd bod y staff domestig yn gwisgo menig pan oeddent yn gwneud hyn, ond nis gwelwyd hwy yn newid eu menig rhwng pob claf, nac yn golchi eu dwylo ar unrhyw adeg.

### ***Argymhelliad***

***Sicrhau bod unrhyw aelodau o staff sy'n cymryd rhan wrth weini prydau bwyd yn glynu wrth yr holl weithdrefnau rheoli heintiau a hylendid bwyd angenrheidiol sy'n berthnasol i'w tasg.***

Yn ogystal, gwelwyd sawl achlysur pan nad oedd yr hambyrddau wedi'u gosod o fewn cyrraedd rhydd i'r cleifion, a phan nad oedd potiau iogwrt a chartonau sudd wedi'u hagor. Gwelwyd rhai aelodau o'r staff domestig yn bod yn gymwynasgar iawn ac yn cynorthwyo'r cleifion o ran hyn; fodd bynnag, yn anffodus, gwnaed hyn eto dan wisgo menig nad oedd wedi'u newid yn syth cyn helpu.

Yng nghegin y ward, gwelwyd rhestr o gleifion diabetig wedi'u gosod ar gwpwrdd, er mwyn atgoffa unrhyw aelod o staff a allai fod yn paratoi neu ddsbarthu bwyd a diodydd. Fodd bynnag, nid oedd hon yn gyfredol, ac roedd cleifion diabetig ar y ward nad oedd eu henwau ar y rhestr.

### ***Argymhelliad***

***Sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n cymryd rhan mewn paratoi a gweini bwyd yn derbyn gwybodaeth gyfredol am y cleifion diabetig sydd ar y ward.***

### **lechyd a hylendid y geg**

*Mae'n rhaid cefnogi pobl i gadw eu cegau'n iach ac yn gyfforddus, a'u dannedd a'u deintgig yn rhydd o boen, er mwyn eu galluogi i fwyta'n dda a rhwystro problemau cysylltiedig.*

## **Casgliad**

Gwelwyd o ddogfennau cleifion bod cleifion yn cael eu hasesu er mwyn penderfynu eu hanghenion o ran iechyd a hylendid y geg. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gallu atgyfeirio at ddeintydd pe byddai angen, ond nid oeddent yn gallu meddwl am unrhyw achlysur ymarferol pan oedd hyn wedi bod yn ofynnol.

Gwelwyd stoc o frwsys dannedd heb eu defnyddio a photiau dannedd gosod wedi'u cadw'n briodol yn ystafell ymolchi'r ward.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn glanhau eu dannedd a/neu eu dannedd gosod bob bore a nos, a dywedodd un claf wrthym ei bod hi'n glanhau ei dannedd yn amlach ers iddi fod yn glaf ar y ward, oherwydd iddi gael ei hannog yn weithredol i wneud hyn gan y staff.

## **Anghenion toiled**

*Rhaid darparu cymorth priodol, diffwdan a phrydlon yn ôl yr angen, gan gymryd unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd i ystyriaeth.*

## **Casgliad**

Edrychwyd ar nodiadau cleifion a gwelwyd bod anghenion o ran ymataliaeth yn cael eu hasesu. Roedd hwn yn un maes lle'r oeddem o'r farn bod y staff yn diweddarau ac ail-werthuso'r cynlluniau gofal a'r asesiadau'n anghyson. Dywedodd y staff wrthym fod ail-werthuso'n cael ei wneud yn rheolaidd bob dydd Sul; fodd bynnag, nid oedd y dogfennau'n adlewyrchu hyn.

## ***Argymhelliad***

***Sicrhau bod y staff nyrsio yn meddu ar y wybodaeth a'r hyder i ddarparu gofal ymataliaeth da a sicrhau bod yr holl asesiadau a dogfennau'n cael eu cadw'n gyfredol.***

Gwelwyd bod y staff yn cynorthwyo cleifion i fynd i'r toiled yn bennaf, a bod defnydd o gomodau yn fach iawn. Dywedodd cleifion wrthym fod staff yn ateb clychau galw yn brydlon ar y cyfan, ond weithiau gallai hyn gymryd mwy o amser nag sy'n ofynnol. Gallai cynnal asesiad mwy trwyadl o anghenion ymataliaeth helpu i ganfod pa gleifion sydd ag angen cymorth gydag ymataliaeth yn gyflymach nag eraill, a gallai hyn gyfrannu at ddatrys y broblem hon mewn rhyw ffordd.

Gwelwyd stoc o badiâu ymataliaeth, ac roedd tri o wahanol fathau ar gael. Gwelwyd hefyd bod nifer uchel o gomodau ar gael, yn ogystal â phadelli

gwelyau a thoiledau/ystafelloedd ymolchi. Roedd comodau'n cael eu cadw ar ben y ward, ac nid oedd unrhyw system wedi'i sefydlu ar adeg ein hymweliad i allu canfod yn rhwydd os oedd y comodau hynny wedi'u glanhau ac yn barod i'w defnyddio. Siaradwyd â'r staff ynglŷn â hyn, a dywedwyd wrthym eu bod ar fin cyflwyno tâp gwyrdd a fyddai'n cael ei osod ar bob comôd i ddangos ei fod yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.

### **Atal briwiau pwyso**

*Mae'n rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.*

### **Casgliad**

Roedd tystiolaeth ar gael ym mhob dogfen claf a welwyd bod y staff nyrsio yn asesu cleifion ar gyfer y risg o fannau briwiau pwyso. Roeddem o'r farn bod yr asesiadau a oedd yn cael eu cynnal ar adeg ein hymweliad yn rhy gyffredinol, ond gwelwyd y dogfennau newydd a oedd am gael eu cyflwyno'n fuan, ac roeddem o'r farn y gallent fod yn welliant sylweddol ar yr hyn a welsom (pe byddent yn cael eu defnyddio'n gywir). Yn ogystal â hyn, mae gan brif nyrs y ward gefndir a phrofiad helaeth mewn gofal clwyfau. Gan ei bod wedi'i recriwtio i'w swydd yn ddiweddar, mae ganddi gynlluniau i ddysgu'r staff, ond nid yw wedi cael y cyfle i wneud hynny hyd yma.

Gwelwyd bod pob claf sydd ag angen offer i atal briwiau pwyso yn defnyddio'r matresi a'r clustogau priodol ar y gwelyau a'r cadeiriau.

Gwelwyd bod y ward yn defnyddio'r fenter croesau diogelwch (dull sicrhau ansawdd ar gyfer monitro achosion o fannau pwyso) er mwyn monitro datblygiad a chyffredinolrwydd manau pwyso ymysg eu cleifion. Roedd y wybodaeth hon wedi'i harddangos yn swyddfa'r ward. Roedd y staff hefyd yn defnyddio dull penodol ar gyfer darparu gofal croen a manau pwyso, ac roeddem yn gallu gweld eu bod yn monitro a darparu gofal i gleifion yr oedd arnynt ei angen yn rheolaidd.

## ***Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Gwelwyd tystiolaeth glir o arweinyddiaeth gan staff uwch, ac roeddent yn amlwg a phrysur ymysg tîm y ward. Roeddem o'r farn bod y lefelau staffio yn ystod y dydd yn briodol er mwyn bodloni'r canllawiau lleol a chenedlaethol, a dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn gweld bod modd ymdopi â'r baich gwaith. Roeddem yn bryderus iawn am y lefelau isel a chyfnewidiol posibl o ran staffio yn ystod y nos, a oedd yn dibynnu ar weithgaredd yr uned mân anafiadau, ac rydym yn argymhell yn gryf y dylid adolygu'r trefniadau presennol ar frys.**

### **Lefelau staffio, cymysgedd sgiliau ac atebolrwydd proffesiynol**

Ar adeg ein hymweliad arolygu, roedd yn ymddangos bod nifer uchel o staff nyrsio cymwysedig yn gweithio ar Ward Maldwyn. Cafodd hyn ei esbonio i ni gan staff y ward, ac mae'r canlynol yn nodi beth ddywedwyd wrthym a beth a welsom o edrych ar y rotâu dyletswyddau:

Yn ystod y dydd, ceir hyd at ddau o nyrsys cofrestredig, weithiau tri, yn y ward. Fel y nodwyd yn flaenorol, ceir uned mân anafiadau ar safle'r ysbyty, ac mae ar agor am 24 awr y dydd. Yn ystod y dydd, ceir un nyrs gofrestredig yn yr uned, sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn nyrsio mân anafiadau a gofal mewn argyfwng; ceir un nyrs gofrestredig yn yr uned, sydd wedi derbyn hyfforddiant penodol, yn ystod y nos hefyd.

Yn ystod y nos, ceir dwy nyrs gofrestredig yn Ward Maldwyn, gydag un ohonynt wedi'i dynodi i ofalu am gleifion y ward yn unig, tra bod gan y nyrs arall ddwy swyddogaeth, gofalu am gleifion y ward a ddarparu gofal mân anafiadau ar gyfer unrhyw gleifion sy'n ymddangos ag anafiadau yn ystod y nos. Yn ystod y dydd, os yw'r uned mân anafiadau'n dawel, caiff y nyrs hon weithio yn y ward, ac yn wir, gwelwyd nyrs yr uned yn gweithio yn y ward am rywfaint o'n hymweliad arolygu, gan ddarparu cymorth nyrsio cymwysedig ychwanegol. Fodd bynnag, yn ystod y nos, roeddem yn hynod bryderus bod cyfnodau wedi bod pan oedd dim ond un nyrs gofrestredig ar gael neu'n bresennol ar gyfer cleifion y ward, a chyda'r trefniant staffio presennol, y bydd hyn yn parhau i ddigwydd. Ceir 21 gwely ar y ward, a gallai'r cynllun siâp-L beri risg i ddiogelwch cleifion o bosibl os mai dim ond un nyrs sydd ar gael. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod o'r farn bod mwy na digon o staff nyrsio i fodloni anghenion cleifion yn ystod y dydd. Yn ystod ein hymweliad, roedd dau glaf oedd wedi'u hasesu i fod mewn cymaint o risg uchel o godymau fel bod staff ychwanegol wedi cael eu galw i mewn i ddarparu gofal un i un er mwyn helpu i'w cadw'n ddiogel. Mynegodd nifer o staff bryder ynglŷn â'r trefniant staffio yn ystod y nos gan eu

bod o'r farn y byddai nifer y cleifion yn ormod i un nyrs gofrestrdedig ofalu amdanynt yn ddiogel, gan y gallai fod ar ei phen ei hun ar y ward.

Rydym yn cydnabod bod y bwrdd iechyd wedi ceisio lliniaru'r risgiau posibl gyda dim ond dwy nyrs gofrestrdedig yn bresennol yn ystod y nos, ac maent wedi darparu ystafell ddynodedig ar gyfer yr uned mân anafiadau ar y ward ei hun, i'w defnyddio yn ystod y nos. Serch hynny, pe byddai claf yr uned yn bresennol, erys y ffaith y gallai un nyrs gofrestrdedig fod yn brysur yn darparu gofal iddo a heb fod ar gael i gleifion y ward yn ystod y cyfnod hwn.

### ***Argymhelliad***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu trefniant staffio'r ward a'r uned mân anafiadau yn ystod y nos ar frys er mwyn sicrhau lleihau'r risg i gleifion y ward a hefyd y risg i nyrsys cofrestredig, a allai fod yn gweithio ar eu pennau eu hunain.***

Yn ystod ein hymweliad, roedd dwy brif nyrs iau ac uwch brif nyrs y ward yn bresennol, ac roedd modd eu hadnabod yn hawdd. Fe'u gwelwyd yn rhoi arweinyddiaeth a chymorth wrth wneud penderfyniadau i'r tîm nyrsio.

Roedd yn ymddangos bod y gweithwyr cymorth gofal iechyd oedd ar ddyletswydd yn ystod ein hymweliad yn gweithio'n annibynnol iawn, ac ni welwyd nhw'n cydweithio â'r staff nyrsio cofrestredig yn aml, ond yn ystod amseroedd bwyd. Edrychwyd ar nifer o gofnodion cleifion yn ystod yr ymweliad hwn, a gwelwyd sawl achlysur pan oedd gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi gwneud cofnodion ysgrifenedig mewn nodiadau cleifion nad oedd wedi'u cydlofnodi gan y nyrs gofrestrdedig oedd yn cydweithio gyda nhw.

### ***Argymhelliad***

***Sicrhau bod y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio o fewn ffiniau eu swyddogaethau yn unig, dan gyfarwyddyd staff nyrsio cofrestredig bob amser, sy'n cydlofnodi unrhyw gofnodion a wneir i nodiadau cleifion.***

### **Systemau effeithiol ar gyfer trefnu gofal clinigol**

Edrychwyd yn fanwl ar nodiadau dau glaf ac arsylwyd ar yr arferion yn y ward hefyd. Gwelwyd bod gofal cleifion yn cael ei gynllunio yn unol â'r anghenion oedd wedi'u hasesu ar y cyfan. Roedd y staff yn defnyddio system o'r enw rowndio bwriadol<sup>3</sup> er mwyn sicrhau bod pawb, ond y cleifion mwyaf agored i niwed yn enwedig, yn cael eu troi a'u harchwilio'n aml. Roedd y siartiau a welwyd yn nodi bod hyn yn cael ei wneud, ond ni chafwyd y cyfle i weld hyn yn digwydd mewn gwirionedd.

Gwelwyd nifer o ymwelwyr ar y ward ar wahanol adegau, a gwelwyd y staff yn siarad gyda nhw am ddatblygiad o ran gofal a thriniaeth eu perthynas.

Gwelwyd gwahanol feddygon yn ymweld â'r ward i weld cleifion, gan arolygu sawl claf weithiau yn ystod rowndiau ward, ac ar adegau eraill yn gweld cleifion unigol pan oedd angen gwneud hynny. Roedd un o nyrsys y ward bob amser yn mynd gyda nhw, a gwelwyd eu bod yn ceisio rhoi preifatrwydd i'r cleifion trwy dynnu eu llenni a dilyn trafodaethau perthnasol gyda'r staff yn swyddfa'r ward.

### **Hyfforddiant a datblygiad**

Dyweddodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod yn cael defnyddio ystafell hyfforddi o fewn safle'r ysbyty i ymgymryd â modiwlau e-ddysgu, ac roeddent o'r farn bod y ddarpariaeth hon o gymorth mawr. Fe'n hysbyswyd bod y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael a pha mor aml y'i darperir wedi gwella dros y 12 i 18 mis diwethaf. Roeddem o'r farn bod y staff y siaradwyd â nhw yn annelwig ac amhendant ynglŷn â'r hyn roeddent wedi'i ddysgu trwy e-ddysgu, ond roeddent yn gallu siarad yn fwy hyderus am yr hyfforddiant wyneb yn wyneb roeddent wedi'i dderbyn.

Dyweddwyd wrthym fod nyrs dementia arbenigol wedi'i phenodi'n ddiweddar ar gyfer gogledd Powys, ac ystyriwyd bod hyn yn gam cadarnhaol o ran cael gwybodaeth fwy cyfredol a chymorth gyda chleifion sy'n ddrislyd neu sydd â dementia.

Yn y safle, ceir dwy brif nyrs iau a dwy uwch brif nyrs, ac maent yn gofalu am anghenion hyfforddiant a datblygu grŵp penodol o staff nyrsio. Dywedwyd wrthym y cynhelir arfarniadau blynyddol tua'r gwanwyn bob blwyddyn, ac mae'r brif nyrs briodol yn defnyddio'r rhain i nodi hyfforddiant a datblygiad ac i sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn gyfredol ar gyfer eu grŵp staff.

### ***Argymhelliad***

***Adolygu'r cyfleoedd hyfforddi a gynigir i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ystyrlon ac yn cwrdd ag anghenion craidd diweddar ac uwchsgilio.***

### **Ymdrin â chwynion a phryderon**

Nid oedd unrhyw gwynion neu bryderon ar waith ar adeg ein harolygiad. Adroddodd prif nyrs y ward am bryder a fynegwyd yn ystod y 18 mis diwethaf, a gwelwyd yn ystod ein trafodaethau y cafodd hyn ei ystyried yn gyfle i adolygu arferion a gwneud gwelliannau.

Dyweddodd un claf wrthym ei fod wedi mynegi pryder, a'i fod o'r farn ei fod wedi'i drafod yn briodol, ac roedd y mater wedi'i ddatrys.

Dywedwyd wrthym y cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd ar gyfer staff y ward, ac y caiff unrhyw bryderon ac adborth cadarnhaol eu trafod.

## **Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol**

*Rhaid bod yn rhagweithiol wrth hybu ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl. Rhaid nodi a monitro risgiau a'u lleihau neu eu hatal lle'n bosibl.*

### **Casgliad Troswaol**

**Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod prif nyrsys y ward wedi mewnbrannu systemau ar gyfer monitro darpariaeth gwasanaeth diogel i'w harferion bob dydd. Roeddem o'r farn bod y staff yn weithgar o ran lleihau risgiau allweddol, megis cwmpau, ac roedd prif nyrs y ward yn gweithio tuag at weithredu systemau troswaol er mwyn lleihau'r risgiau hyn hyd yn oed yn fwy. Gwnaed rhai argymhellion, yn enwedig o ran yr angen i wella safonau cadw cofnodion mewn dogfennau cleifion yn gyffredinol.**

### **Rheoli risgiau**

#### **Casgliad**

Yn ystod ein trafodaethau ag uwch brif nyrs y ward ac un o brif nyrsys iau'r ward ynglŷn â rheoli'r ward o ddydd i ddydd, roedd yn amlwg bod monitro unrhyw ddigwyddiadau, damweiniau a fu bron â digwydd, a meysydd risg yn flaenoriaeth iddynt. Dywedwyd wrthym eu bod yn caniatáu amser ar ddechrau pob sifft i adolygu unrhyw faterion sydd wedi digwydd neu sy'n barhaus. Roedd staff y ward y siaradwyd â nhw i gyd yn gyfarwydd â defnyddio'r system Datix4 i adrodd am ddigwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd. Roedd ein trafodaethau'n awgrymu bod gan y ward agwedd agored a rhagweithiol ar gyfer ymdrin â digwyddiadau andwyol a damweiniau a fu bron â digwydd.

Roedd y ward yn cofnodi cwmpau a briwiau pwyso cleifion ar siart ar wal yn swyddfa'r staff, ac roeddem yn gallu gweld y bu nifer o gwmpau yn ystod y mis a oedd yn arwain at ein hymweliad. Siaradwyd yn hir â nifer o wahanol aelodau o staff ynglŷn â hyn, a gwelwyd eu bod yn ceisio rheoli a lleihau'r risg o gwmpau ar gyfer y cleifion roeddent yn gofalu amdanynt ar hyn o bryd. Roeddent wedi symud y cleifion i'r ystafelloedd agosaf i gorlan y nyrsys fel eu bod yn gallu darparu monitro o'r safon uchaf posibl, ond yn ychwanegol at hyn, roeddent wedi cael mwy o staff ac roeddent yn darparu gofal un i un ar gyfer y rhai hynny a oedd fwyaf mewn perygl. Roedd uwch brif nyrs y ward hefyd wedi nodi bod angen gwella'r broses atgyfeiriadau cleifion i'r ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu lleoli'n briodol.



## **Polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau clinigol**

### **Casgliad**

Gellir dod o hyd i'r holl bolisiau a gweithdrefnau ar wefan mewnwyd y bwrdd iechyd, ac ni hysbysodd y staff am unrhyw broblemau o ran cael mynediad at y rhain. Roedd cyfrifiadur ar gael i'r staff ei ddefnyddio yng nghorlan y nyrsys ac un arall yn swyddfa'r ward, ac roeddent yn darparu amgylchedd tawelach i'r staff allu ymchwilio a darllen polisiau.

Nid oedd uwch brif nyrs y ward wedi bod yn ei swydd yn hir, ond yn ystod y cyfnod byr hwn, roedd wedi canfod yr angen i sefydlu gweithdrefnau pendant fel bod atgyfeiriadau cleifion i'r ward yn cael eu rheoli'n well. Roedd wedi datblygu rhai dulliau sylfaenol a rhestrau gwirio i staff y ward eu defnyddio wrth siarad â meddygon teulu ac ysbytai cyffredinol dosbarth ynglŷn ag atgyfeirio cleifion posibl.

Gwelwyd potel o hylif glanhau comodau yn y man golchi, ac nid oedd wedi'i baratoi i fod yn barod i'w ddefnyddio ar gyfer glanhau pob comôd fel y dylai fod. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth ychwaith o amserlen lanhau a oedd yn nodi cyfarwyddiadau clir o ran y dull o sicrhau bod y comodau'n cael eu glanhau'n ddigonol.

### ***Argymhelliad***

***Sicrhau bod toddiant ar gyfer glanhau comodau yn cael ei baratoi yn barod i'w ddefnyddio bob dydd, a bod y dyddiad yn cael ei nodi arno i ddangos ei gyfnod gweithredu. Sicrhau bod cyfarwyddiadau glanhau comodau wedi'u harddangos yn glir yn y man golchi i'r staff eu dilyn.***

## **Systemau effeithiol ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol**

### **Casgliad**

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r ward yn monitro achosion o gwmpau a briwiau pwyso cleifion ac yn arddangos y canlyniadau ar y wal yn swyddfa'r ward. Caiff y wybodaeth a gesglir wrth wneud hyn ei mewnosod i'r system metrigau 5 gofal, er mwyn gallu cymharu a dadansoddi'r data o fis i fis. Dylid arddangos y canlyniadau misol hefyd, fel bod unrhyw un sy'n ymweld â'r ward yn gallu gweld perfformiad y ward o ran hyn hefyd.

## **Argymhelliad**

***Arddangos gwybodaeth am gwypau, briwiau pwyso, a dangosyddion ansawdd eraill a gofnodir ar gyfer cleifion yn agored mewn lleoliad y gall pobl sy'n ymweld â'r ward eu gweld.***

Dywedwyd wrthym fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar hap gan unrhyw un o'r uwch brif nyrsys neu'r prif nyrsys iau ar Ward Maldwyn , gan sicrhau bod cydymffurfiad â threfniadau golchi dwylo da. Dywedodd prif nyrsys y ward wrthym eu bod yn defnyddio llyfr/dyddiadur cyfathrebu ysgrifenedig, y cyfnod trosglwyddo rhwng staff bob dydd, a chyfarfodydd ward rheolaidd i drosglwyddo canlyniadau o'r archwiliadau maent yn eu cynnal.

## **Diogelwch cleifion**

### **Casgliad**

Cyflwynwyd bwrdd 'cipolwg ar statws cleifion' yn ddiweddar, ac roedd wedi'i arddangos yn swyddfa'r ward. Caiff gwybodaeth ei throsglwyddo ar ddechrau pob sifft yn y swyddfa sydd wrth ochr y bwrdd fel bod gwybodaeth yn gallu cael ei hadolygu'n rheolaidd. Yn ystod ein harolygiad, roedd yn amlwg bod y bwrdd cipolwg ar statws cleifion yn cael ei ddefnyddio, gan fod y wybodaeth yn gyfredol ac roedd magnetau o wahanol liwiau wrth ochr enwau cleifion a oedd yn rhybuddio staff am gleifion oedd mewn perygl o gwmpo.

Roedd yr holl staff yn gwisgo bathodynau enw fel eu bod yn hawdd i'w hadnabod, ac roedd gwisgoedd unfurf o wahanol liwiau er mwyn amlygu'r staff cymwysedig, y staff heb gymwysterau, a'r staff domestig, yn glir.

Roedd nifer o gleifion wedi cwmpo yn ystod yr wythnosau'n arwain at ein hymweliad arolygu (chwech yn ystod mis Ionawr hyd at ein hymweliad), ac roedd y cleifion hynny oedd fwyaf mewn perygl o gwmpo eto yn derbyn gofal un i un ac yn cael eu nyrsio yn yr ystafell agosaf i gorlan y nyrsys. Dywedodd prif nyrs y ward wrthym nad oeddent o'r farn bod hyn yn ddigonol, ac felly roeddent wedi archebu cyflenwad o larymau symud er mwyn rhybuddio staff pe byddai cleifion sydd mewn perygl yn ceisio dod allan o'u gwelyau/cadeiriau.

Roeddent wedi cyrraedd y ward, ond roedd y staff yn aros am hyfforddiant er mwyn eu galluogi i'w defnyddio'n ddiogel.

## **Rheoli meddyginiaethau**

### *Dull a threfn y ward*

Yn ystod ein hymweliad, gwelwyd meddyginiaethau'n cael eu paratoi a'u rhoi i gleifion. Gwelwyd meddyginiaethau'n cael eu rhoi ar ôl amser bwyd yn bennaf, a oedd yn golygu bod y cleifion eisoes yn eistedd i fyny. Gwelwyd y staff yn cynorthwyo a monitro cleifion yn cymryd eu meddyginiaethau, gan symud ymlaen i'r claf nesaf dim ond pan oeddent wedi gorffen. Gwelwyd y staff nyrsio yn bod yn ofalus nad oeddent yn gadael y troli meddyginiaethau heb unrhyw un yn gofalu amdano neu heb ei gloi ar unrhyw adeg.

Roedd gwahanol feddyginiaethau'n cael eu cadw mewn nifer o wahanol leoedd ar y ward. Nid oedd unrhyw un ohonynt yn cael eu cadw'n amhriodol; fodd bynnag, gallai nifer y lleoedd storio wneud paratoi'n anos. Nodwyd hefyd ei bod yn ofynnol i'r staff baratoi unrhyw gyffuriau ar gyfer pigiad ar arwyneb bwrdd y tu ôl i gorlan y nyrsys. Roedd yr un man yn cael ei ddefnyddio hefyd i gadw ac ysgrifennu gwaith papur. Dywedodd yr uwch nyrs wrthym fod cynlluniau i greu ystafell glinigol benodol gyda lle i'r holl feddyginiaethau a lle i baratoi meddyginiaethau; fodd bynnag, yn y cyfamser, byddai'n synhwyrol i adolygu priodoldeb y man presennol ac ystyried ateb dros dro er mwyn galluogi man bychan ar gyfer paratoi meddyginiaethau.

### ***Argymhelliad***

***Ystyried ateb dros dro sy'n darparu man/arwyneb penodol i'r staff nyrsio baratoi meddyginiaethau i'w rhoi.***

## **Dogfennau**

### *Asesu cleifion*

Edrychwyd yn fanwl ar ddwy set o gofnodion cleifion, yn ogystal ag amrywiaeth o ddogfennau cleifion eraill. Roeddem yn gyson yn gweld tystiolaeth ysgrifenedig bod y staff nyrsio yn asesu anghenion y cleifion, a'u bod yn datblygu cynlluniau gofal er mwyn rhoi sylw i'r ystod lawn o anghenion roeddent wedi'u canfod. Ar adegau, roedd yn ymddangos nad oedd y cynlluniau gofal priodol wedi'u clustnodi ar gyfer yr anghenion a nodwyd, a gwelwyd hefyd bod ychydig iawn iawn o wybodaeth oedd wedi'i chofnodi yn y diweddariadau dyddiol weithiau. Cafodd ein hysbysu gan yr uwch staff nyrsio bod Bwrdd Addysgu Iechyd Powys i fod i gyflwyno dogfen newydd ym mis Chwefror 2015, a chawsom weld copi ohoni. Roeddem o'r farn bod y ddogfen newydd yn rhoi cyfleoedd i'r staff nyrsio weithio'n agos iawn â chleifion er mwyn deall eu hanghenion, ac roedd yn ymddangos bod yr asesiadau'n arbennig o

gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae safon y cofnodi presennol yn awgrymu y byddai'r staff nyrsio'n elwa ar dderbyn hyfforddiant cyffredinol ar ddogfennau cleifion, ac nid ar sut i gwblhau'r dogfennau newydd yn unig. Nodwyd hefyd bod nifer o gofnodion a wnaed gan y gweithwyr cymorth gofal iechyd mewn nodiadau cleifion heb eu cydlofnodi gan y staff nyrsio cofrestredig oedd yn goruchwyllo eu gwaith; mae'n rhaid rhoi sylw i hyn hefyd er mwyn sicrhau bod y staff cofrestredig yn cymryd cyfrifoldeb llawn am y cleifion sydd dan eu gofal.

### ***Argymhelliad***

***Ystyried darparu hyfforddiant ychwanegol ar gadw cofnodion da i'r staff nyrsio.***

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i roi sylw i ganfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ar Ward Maldwyn yn Ysbyty Coffa Victoria yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau/unedau eraill y bwrdd iechyd.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus o urddas a gofal hanfodol.

## Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Coffa Victoria, Y Trallwng

Ward/Adran: Ward Maldwyn

Dyddiad yr Arolygiad: 20 a'r 21 Ionawr 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>					
7	Sicrhau bod y staff yn treulio amser yn helpu'r cleifion i ddeall eu cyflyrau meddygol. Sicrhau bod digon o baratoadau'n cael eu gwneud cyn rowndiau ward.	<ol style="list-style-type: none"><li>1. Prif Nyrs y Ward i drafod yr angen hwn yn ystod cyfarfodydd ward.</li><li>2. Prif Nyrs y Ward i sicrhau staff bod y cynllun gwella hwn ar gael i bob aelod staff.</li><li>3. Pob aelod o'r staff i sicrhau bod y cleifion wedi deall eu cyflwr meddygol, a'u bod yn cynllunio eu gofal yn dilyn pob rownd ward.</li></ol>	<p>Wedi'i gofnodi yn ystod cyfarfod staff mis Ebrill 2015.</p> <p>Cynllun gwella yn ffolder cofnodion y cyfarfod ward.</p> <p>Wedi'u cofnodi yn y</p>	<p>Uwch Brif Nyrs Clare Robbins, Meddygon Teulu, a phob aelod o'r staff sy'n gofalu am gleifion</p> <p>Atebol i Judy Lloyd,</p>	I'w gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Archwilio pum claf o ran capasiti; yr wythnos sy'n dechrau ym mis Ebrill 2015, yr wythnos sy'n dechrau ym mis Mai 2015.	nodiadau meddygol a nyrsio.  Canlyniadau archwiliad.	Uwch-nyrs	
8	Adolygu'r seddi yn yr ystafell ddydd i sicrhau eu bod yn addas a chyfforddus i gleifion eu defnyddio a threulio amser ynddynt.	<p>1. Prif Nyrs y Ward yn cydweithio â therapyddion ac arbenigwyr seddi i adolygu'r dewisiadau o ran seddi yn yr ystafell ddydd.</p> <p>2. Prif Nyrs y Ward i ddatblygu rhestr o weithgareddau i'r cleifion.</p> <p>3. Prif Nyrs y Ward i gefnogi datblygiad a chaffaeliad cymhorthion gweithgarwch sy'n addas i gleifion â dementia neu sydd ag anawsterau o ran y synhwyrau.</p>	<p>1. Adolygu seddi, ffynhonnell ariannu, a gweithredu.</p> <p>2. Calendr gweithgarwch i'w ddatblygu ar y cyd â therapyddion galwedigaethol a'r trydydd sector (os oes arian ar gael).</p> <p>3. Fel 1.2. Sicrhau cymhorthion gweithgarwch priodol.</p>	<p>Uwch Brif Nyrs Clare Robbins, Eiriolwyr Dros y Cynllun Pili-pala, Eiriolwyr dros Atal Cwmpadau</p> <p>Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i</p>	I'w gwblhau erbyn 30 Ebrill 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>4. Gofyniad Bwrdd Iechyd Addysgu Powys o ran polisiau gwirfoddolwyr.</p> <p>5. Clwb brecwast i annog y cleifion i ymadweithio'n gymdeithasol.</p>		gwblhau'r polisi	
<b>Cyflenwi Hanfodion Gofal</b>					
9	Dylai staff nyrsio sefydlu beth yw iaith ddewisol cleifion a hybu hyn pan fo hynny'n bosibl.	<p>1. Mae'r ddogfennaeth newydd, sydd bellach ar gael, yn gofyn yn benodol i'r cleifion pa iaith fyddent yn dymuno cyfathrebu ynddi (demograffeg tudalen 4).</p> <p>2. Y staff nyrsio i wisgo bathodynau adnabod dwyieithog.</p> <p>3. Os bydd claf nad yw'n siarad Saesneg ar y ward, bydd y tîm nyrsio yn cael gwybod am hyn ac yn darparu dehonglydd os oes angen.</p>	Archwilio dogfennau, archwilio hanfodion gofal.	Uwch Brif Nyrs Clare Robbins a'r holl staff	<p>1. Wedi'i gwblhau gyda monitro parhaus</p> <p>2. Wedi'i gwblhau gyda monitro parhaus</p> <p>3. Wedi'i gwblhau gyda monitro parhaus</p>
10	Dylid atgoffa'r holl staff bod angen cau llenni a bleindiau yn	1. Prif nyrs y ward i atgoffa staff yn ystod y cyfarfod ward ym mis Ebrill 2015.	Cofnodion o'r cyfarfod ym mis Mawrth 2015	1 Uwch Brif Nyrs Clare Robbins a'r holl staff	I'w gwblhau erbyn 30 Ebrill 2015



Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	ystod unrhyw ofal neu gymorth claf a allai fod yn bersonol.	<p>2. Prif nyrs y ward i sicrhau cydymffurfiad trwy weithredu'n uniongyrchol ac arsylwi wrth nyrsio.</p> <p>3. Prynu llenni tafladwy sy'n briodol i'r man cleifion, a byddai hyn yn gwella'r ddarpariaeth o ran preifatrwydd ac urddas y claf hefyd.</p> <p>4. Pegiau urddas ar lenni.</p>		<p>2. Uwch Brif Nyrs Clare Robbins a'r holl staff</p> <p>3. Della Powell, Nyrs Arwain mewn Atal a Rheoli Heintiau</p>	
12	Hybu defnydd aml o'r ystafell ddydd pan fo hynny'n bosibl, er mwyn annog cleifion i ymadweithio.	<p>1. Prif nyrs y ward yn cydweithio â'r tîm ehangach i adolygu faint mae'r ystafell ddydd yn cael ei defnyddio a'r awyrgylch; cael system teledu, DVD a cherddoriaeth.</p> <p>2. Prif nyrs y ward yn cydweithio â'r tîm ehangach i ddatblygu trefn gweithgareddau ac adsefydlu y gellir eu cynnal yn yr ystafell ddydd.</p> <p>3. Cynyddu defnydd o'r ystafell ddydd ar amser bwyd.</p>	<p>1. Cofnodion o'r cyfarfod ym mis Mawrth 2015</p> <p>2. Trefn Gweithgareddau / Adsefydlu</p> <p>3. Ymweliadau arsylwi</p>	1 Uwch Brif Nyrs Clare Robbins a'r holl staff	I'w gwblhau erbyn 30 Mawrth 2015
13	Adolygu lleoliad yr uned mân anafiadau yn ystod y nos, gan ystyried yr	1. Cynnal adolygiad o ddarpariaeth yr uned mân anafiadau yn y ward, gan nodi'n benodol y gweithgarwch y tu allan i oriau gwaith, safle'r uned	1 Arolygu'r ddarpariaeth y tu allan i oriau gwaith	Nyrs Arwain	I'w gwblhau erbyn 30 Mehefin 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>aflonyddwch posibl i gleifion y ward a allai gael ei achosi gan y lleoliad presennol.</p>	<p>yn ystod y nos, a'r peryglon i'r cleifion preswyl, y staff, a'r cyhoedd.</p> <p>2. Cynnal asesiad risg o lif cleifion ar hyn o bryd yn y cyfnodau y tu allan i oriau gwaith, a'r peryglon i'r cleifion preswyl, y staff, a'r cyhoedd.</p> <p>3. Sicrhau bod copi caled o'r asesiad risg a'r cynllun ar gael i staff.</p>	<p>2. Asesiad risg ar Datix</p> <p>3. Cadw'r asesiad risg yn ffolder 'Polisi a Gweithdrefnau Gweithio Unigol' (dechreuwyd ym mis Tachwedd 2014)</p>	<p>Anita Moles, Uwch Brif Nyrs</p> <p>Judy Lloyd, Uwch-nyrs</p>	<p>Wedi'i gwblhau gyda monitro parhaus</p>
14	<p>Sicrhau bod dogfennau cleifion yn cynnwys digon o fanylion i esbonio'r rheswm dros benderfyniadau yn ymwneud â newid ystum cyrff cleifion a nyrso yn y gwely.</p>	<p>1. Cynnal archwiliad o'r ddogfennaeth newydd, a fydd yn cynnwys asesiadau cleifion a chynlluniau gofal fydd yn berthnasol i'r claf unigol.</p> <p>2. Prif nyrs y ward i archwilio dogfennau yn ymwneud â 3 set o nodiadau yn dechrau ym mis Ebrill 2015 a mis Mai 2015.</p>	<p>1. Tystiolaeth o gylchred archwiliadau.</p> <p>1.2 Copïau o archwiliadau rheolaidd a chynlluniau gwella.</p>	<p>1. Tîm Dogfennau</p> <p>2. Uwch Brif Nyrs Clare Robbins, Prif Nyrs Heather Simms</p>	<p>1. I'w cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2015</p> <p>2. Dechrau erbyn 1 Mawrth ac yna'n barhaus.</p>

<b>Rhif y Dudalen</b>	<b>Argymhelliad</b>	<b>Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd</b>	<b>Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Amserlen</b>
14	Ystyried ailgyflwyno ymweliadau trin gwallt rheolaidd â'r ward.	1. Prif nyrs y ward i ddarparu rhestr o drinwyr gwallt symudol ar gyfer pob claf, yn ogystal â darparu offer (sychwr gwallt) ac amgylchedd priodol i drinwyr gwallt allu rhoi sylw i gleifion.	Adborth gan gleifion. Dyddiadur ward i gadw lle ar gyfer trin gwallt	1. Heather Simms, Prif Nyrs y Ward	Wedi'i gwblhau gyda monitro parhaus
15	Sicrhau bod cleifion wedi'u gosod a byrddau wedi'u glanhau a'u clirio mewn pryd i'r gwasanaeth bwyd.	1. Prif nyrs y ward yn cydweithio â'r tîm domestig i adolygu a chynnal amserlen bwyd sydd wedi'i diwygio er mwyn sicrhau bod y byrddau'n lân a bod staff priodol wedi gosod y cleifion ar gyfer bwyta eu bwyd.	1. Uwch-nyrs i ymweld ar gyfer arsylwi.	1. Clare Robbins i gydweithio â'r holl staff, gan gynnwys Gill Foxley, y rheolwr cyfleusterau	I'w gwblhau erbyn 30 Mawrth 2015
15	Sicrhau bod cleifion yn cael cymorth wrth ddefnyddio clytiau diheintio neu wrth olchi eu dwylo cyn amser bwyd.	1. Prif nyrs y ward i sicrhau bod yr argymhelliad yn cael ei rhannu â staff y ward a'r staff domestig. 2. Prif nyrs y ward i sicrhau bod clytiau diheintio ar gael. 3. Yr holl staff i sicrhau bod cleifion yn gallu mynd i'r ystafelloedd ymolchi bob amser i olchi eu dwylo os ydynt yn dymuno.	Rhannu argymhelliad â'r holl staff 2 Y staff domestig i hysbysu personél pan fo stoc yn isel. Uwch-nyrs i ymweld ar gyfer arsylwi	1. Uwch Brif Nyrs Clare Robbins a'r holl staff	Wedi'i gwblhau gyda monitro parhaus
15	Sicrhau bod unrhyw aelod o staff sy'n	1. Prif nyrs y ward yn cydweithio â'r goruchwylydd domestig i adolygu'r	Ymweliad arsylwi Archwiliad Maethegol	1. Uwch Brif Nyrs Clare Robbins a'r holl	Wedi'i gwblhau gyda monitro

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	cymryd rhan wrth weini prydau bwyd yn glynu wrth yr holl weithdrefnau rheoli heintiau a hylendid bwyd angenrheidiol sy'n berthnasol i'w tasg.	broses paratoi ar gyfer amser bwyd a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau.  2. Prif nyrs y ward i geisio cymorth lle bo angen gan y Tîm Rheoli Heintiau.	Powys bob 6 mis	staff  2. Della Powell, Nyrs Arwain mewn Atal a Rheoli Heintiau	Wedi'i gwblhau gyda monitro parhaus
16	Sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n cymryd rhan mewn paratoi a gweini bwyd yn derbyn gwybodaeth gyfredol am y cleifion diabetig sydd ar y ward.	1. Nyrsys cyswllt diabetig i ddiweddarau'r bwrdd cyfathrebu ar gyfer prydau bwyd arbenigol.  2. Holl staff i sicrhau bod y staff arlwyo'n ymwybodol o gleifion ag anghenion diet arbenigol.	Ymweliadau arsylwi  Adolygiad o'r taflenni bwydlen unigol  Archwiliad Maethegol Powys bob 6 mis	1. Uwch Brif Nyrs Clare Robbins a'r holl staff  2. Staff y gegin	Wedi'i gwblhau gyda monitro parhaus
16	Sicrhau bod y staff nyrsio'n meddu ar yr wybodaeth a'r hyder i ddarparu gofal ymataliaeth da a sicrhau bod yr holl asesiadau a dogfennau'n cael eu cadw'n gyfredol.	1. Prif nyrs y ward i adolygu anghenion hyfforddiant a setiau sgiliau'r staff nyrsio gyda chymorth y tîm ymataliaeth.  2. Prif nyrs y ward i roi cymorth gydag unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol a chofnodi ar y matrices anghenion hyfforddiant.	Hyfforddiant wedi ei gofnodi yn cael ei ddangos ar fatrics anghenion hyfforddiant y ward	1. Uwch Brif Nyrs Clare Robbins a'r holl staff  2. Adolygydd y Cynllun Datblygu Personol i fwydo'r matrices anghenion	1. Wedi'i gwblhau gyda monitro parhaus  2. I'w gwblhau erbyn 30 Ebrill 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>3. Cryfhau a chynyddu rôl y nyrs gyswllt trwy sicrhau 2 weithiwr cymorth gofal iechyd ochr yn ochr â 2 nyrs gofrestredig gyffredinol i gefnogi'r angen hwn.</p> <p>4. Gweithwyr cymorth gofal iechyd i fynychu cyfarfod nyrsys cyswllt Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.</p>		hyfforddiant gyda chymorth nyrs arbenigol	<p>3. Wedi'i gwblhau gyda monitro parhaus</p> <p>4. Wedi'i gwblhau gyda monitro parhaus</p>
<b>Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>					
19	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu trefniant staffio'r ward a'r uned mân anafiadau yn ystod y nos ar frys er mwyn sicrhau lleihau'r risg i gleifion y ward a hefyd y risg i nyrsys cofrestredig, a allai fod yn gweithio ar eu pennau eu hunain.	<p>1. Ymgymryd ag adolygiad o ddarpariaeth yr uned mân anafiadau yn y Trallwng, gan nodi yn enwedig y gweithgarwch y tu allan i oriau, lleoliad yr uned yn ystod y nos, a'r risgiau i gleifion preswyl, staff, a'r cyhoedd.</p> <p>2. Cynnal asesiad risg o lif cleifion presennol y tu allan i oriau a'r risg i gleifion preswyl, staff, a'r cyhoedd.</p> <p>3. Sicrhau bod copi caled o'r asesiad risg a'r cynllun gweithredu ar gael i'r staff.</p>	<p>Adolygiad o'r ddarpariaeth y tu allan i oriau</p> <p>Asesiad risg ar Datix</p>	<p>Jason Crawl, Nyrs Arwain</p> <p>Uwch-nyrs</p>	I'w gwblhau erbyn 15 Mawrth 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
19	Sicrhau bod y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio o fewn ffiniau eu swyddogaethau yn unig, dan gyfarwyddyd staff nyrsio cofrestredig bob amser, sy'n cydlofnodi unrhyw gofnodion a wneir i nodiadau cleifion.	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Prif nyrs y ward i ymgymryd â sesiynu ar y cod ymddygiad newydd i'r holl nyrsys cofrestredig, gan gyfeirio at y rheolau ynghylch dirprwyo.</li> <li>2. Prif nyrs y ward i drafod yr argymhelliad yng nghyfarfodydd tîm y ward.</li> <li>3. Prif nyrs y ward i nodi'r argymhelliad yn llyfr cyfathrebu'r ward.</li> </ol>	<p>Cofnodion cyfarfodydd y ward</p> <p>Rhestrau presenoldeb ar gyfer sesiynau datblygiad proffesiynol</p>	Uwch Nyrs Clare Robbins	Wedi'i gwblhau, monitro parhaus
20	Adolygu'r cyfleoedd hyfforddi a gynigir i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ystyrlon ac yn cwrdd ag anghenion craidd diweddar ac uwchsgilio.	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Darparu'r amserlen ofynnol ar gyfer hyfforddiant statudol a gorfodol i bob aelod o staff.</li> <li>2. Darparu copi o'r canllaw hyfforddiant ar e-ddysgu 'sut i fynd at e-ddysgu'.</li> <li>3. Gosod y cyhoeddiadau hyfforddiant wythnosol ar gyfer Powys ar yr hysbysfwrdd i'r holl staff.</li> </ol>	<p>Rhestr o ddyddiadau hyfforddi staff wedi'i chwblhau a'i threfnu ynghyd ag amserlenni</p> <p>Rhestr hyfforddi i gynnwys hyfforddiant gorfodol, clinigol</p> <p>Cynnal a diweddarau matrices anghenion hyfforddiant y ward</p>	<p>Uwch Brif Nyrs Claire Robbins, Prif Nyrs Anita Moles, pob adolygydd y cynllun datblygu personol</p> <p>Pob aelod o staff i fod yn gyfrifol am amlygu gofynion hyfforddiant</p>	<p>Wedi'i gwblhau, monitro parhaus</p> <p>Wedi'i gwblhau, monitro parhaus</p>

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>4. Dyrannu staff i ymgymryd ag e-ddysgu neu hyfforddiant grŵp ar ddiwrnodau hyfforddi dynodedig ar gyfer datblygu ymarfer; ymweliadau arsylwi ar y safle fel rhan o ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.</p> <p>5. Adrodd ar ddatblygiad yr amserlen hyfforddi mewn cyfarfodydd tîm a Chyfarfodydd Rheoli Ardal.</p>	Staff ar ddyletswydd ar gyfer diwrnodau hyfforddi a hunan-astudio		
<b>Darparu Gwasanaeth Diogel</b>					
23	<p>Sicrhau bod toddiant ar gyfer glanhau comedau yn cael ei baratoi yn barod i'w ddefnyddio bob dydd, a bod y dyddiad yn cael ei nodi arno i ddangos ei gyfnod gweithredu.</p> <p>Sicrhau bod</p>	<p>1. Prif Nyrs y Ward yn gweithio gyda'r tîm ehangach i sicrhau bod y toddiant glanhau'n cael ei gymysgu, ei ddyddio, a'i ddefnyddio'n gywir.</p> <p>2. Prif nyrs y ward i rannu'r argymhelliad hwn yng nghyfarfodydd y ward ac yn y llyfr cyfathrebu.</p>	<p>Ymweliad arsylwi</p> <p>Cofnodion cyfarfodydd y ward a'r llyfr cyfathrebu</p>	<p>Uwch Brif Nyrs Clare Robbins, Uwch Brif Nyrs Anita Moles</p> <p>Gill Foxley, Rheolwr Cyfleusterau.</p>	<p>Wedi'i gwblhau, monitro parhaus</p>

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	cyfarwyddiadau glanhau comedau wedi'u harddangos yn glir yn y man golchi i'r staff eu dilyn.				
24	Arddangos gwybodaeth am gwmpau, briwiau pwyso, a dangosyddion ansawdd eraill a gofnodir ar gyfer cleifion yn agored mewn lleoliad y gall pobl sy'n ymweld â'r ward eu gweld.	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Prif nyrs y ward i roi byrddau cleifion 'sut ydym ni'n gwneud' ar waith.</li> <li>2. Prif nyrs y ward i osod y bwrdd ym mhrif fynedfa'r ward.</li> </ol>	Ymweliad arsylwi	Uwch Brif Nyrs Clare Robbins, Uwch Brif Nyrs Anita Moles	I'w gwblhau erbyn 30 Gorffennaf 2015
25	Ystyried ateb dros dro sy'n darparu man/arwyneb penodol i'r staff nyrsio	1. Prif nyrs y ward yn gweithio gydag ystadau i ddarparu'r cynllun aildrefnu ar gyfer y mannau paratoi meddyginiaeth a'r cypyrddau	Dogfen y cynllun aildrefnu ar gyfer ardaloedd storio lân ar gyfer offer a		1 a 2 wedi'u cwblhau, monitro parhaus



Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	baratoi meddyginiaethau i'w rhoi.	<p>meddyginiaeth newydd.</p> <p>2. Prif nyrs y ward i ddod o hyd i ardal interim, wedi ei chytuno'n lleol, ar gyfer storio a pharatoi meddyginiaeth fewnwythiennol, chwistrelliadau, ac ati'n ddiogel.</p> <p>3. Prif nyrs y ward i gysylltu â'r Cynghrair Cyfeillion i sicrhau cyllid i gefnogi'r argymhelliad hwn.</p>	<p>meddyginiaeth</p> <p>Ymweliadau arsylwi</p>	<p>Uwch Brif Nyrs Claire Robbins, Uwch-nyrs Judy Lloyd</p>	<p>3. Opsiwn i gael ei ymchwilio erbyn 30 Mawrth 2015</p>
26	Ystyried darparu hyfforddiant ychwanegol ar gadw cofnodion da i'r staff nyrsio.	<p>1. Prif nyrs y ward i gefnogi darparu sesiynau safonau proffesiynol mewn dogfennau i holl staff y ward.</p> <p>2. Prif nyrs y ward i ymgymryd ag archwiliad dogfennau ar hap ar gyfer 5 cofnod.</p> <p>3. Prif nyrs y ward a chlerc y ward i adolygu trefniannau storio dogfennau a diogelwch i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd.</p>	<p>Tystiolaeth o sesiynau hyfforddi</p> <p>Tystiolaeth o gylchred archwiliadau</p> <p>Copiâu o archwiliadau rheolaidd a chynlluniau gwella.</p>	<p>Uwch Brif Nyrs Clare Robbins</p> <p>Uwch-nyrs Judy Lloyd</p>	<p>Dechreuwyd erbyn 1 Mawrth ac yna'n barhaus</p>

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Mathau o dystiolaeth sy'n addas er mwyn rhoi sicrwydd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ychwane gol	Argymhelliad ardal: dosbarthu canfyddiadau'r arolygiad, datblygu dysgu, a gwella ansawdd ac urddas gofal ledled pob ysbyty ym Mhowys	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yr adroddiad a'r cynllun gweithredu i gael eu cytuno â thîm y ward, tîm ystadau, nyrsys ardal, tîm clinigol a'r tîm rheoli.</li> <li>2. Yr adroddiad a'r cynllun gweithredu i fod ar gael i holl staff pob grŵp sy'n gweithio ar y ward.</li> <li>3. Yr uwch-nyrs a phrif nyrs y ward i gyfarfod bob wythnos i adolygu'r cynllun gweithredu hyd y bydd y camau wedi'u gweithredu.</li> <li>4. Bydd yr uwch-nyrs yn adrodd am gynnydd i'r Tîm Rheoli Ardal bob mis.</li> <li>5. Bydd y Tîm Rheoli Ardal yn adrodd i Gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Powys bob dau fis.</li> </ol>	Cofnodion cyfarfodydd Adroddiadau amlygu	Jason Crawl, Nyrs Arwain	Dechreuwyd 1 Mawrth 2015

**Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:** .....

**Llofnod:** .....

**Teitl:** .....

**Dyddiad:** .....